Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

## Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu / Uned Mân Anafiadau / Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 15 Gorffennaf 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy:


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **agic@llyw.cymru**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



978-1-80364-545-2



© Hawlfraint y Goron 2022

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 10

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 16

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 28

4. Beth nesaf? ........ 32

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai ........ 33

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 34

   Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ........ 35

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 36

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da** |
| **Dylanwadu ar bolisïau a safonau:** | **Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisïau, safonau ac arferion** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Uned Mân Anafiadau Aberhonddu ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 8 a 9 Mawrth 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan uwch-arolygydd gofal iechyd.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o’n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom nodi rhai arferion da a nodi bod y staff yn trin y cleifion ag urddas a charedigrwydd. Adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a wnaed gan y cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd nad oeddent yn cydymffurfio'n llawn â nifer o’r Safonau Iechyd a Gofal ac y mae angen eu gwella.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn canmol y staff a'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn
- Roedd yna ddeinameg gadarnhaol yn y tîm ac roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr
- Roedd y system apwyntiadau ffôn yn galluogi staff i frysbennu a sgrinio cleifion am feirws COVID-19 cyn mynychu'r uned
- Gwelsom dystiolaeth fod yr holl gleifion a fynychodd yr Uned Mân Anafiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael eu trin o fewn y targed amser aros gofynnol o bedair awr
- Roedd nodiadau’r cleifion wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o ofal a thriniaeth
- Roedd gweithdrefnau diogelu yn gyfredol ac roedd siartiau llif wedi'u cyflwyno'n dda ac yn fanwl yn y nodiadau clinigol

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol. Sylwch fod rhestr lawn o welliannau ar gael yn Atodiad A:

- Gwasanaethau, gwybodaeth ac arwyddion priodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â Saesneg
- Dylai ffurflenni adborth fod ar gael i’r cleifion er mwyn rhoi cyfle iddynt roi adroddiad o'u profiad gofal iechyd
- Darparu gwybodaeth am bryderon a godwyd gan y cleifion, gwersi a ddysgwyd a gwelliannau a wnaed

- Er mwyn diogelu hawliau’r bobl, dylai fod gan yr Uned Mân Anafiadau drefniadau gwarchodwr priodol a digonol ar waith yn ystod shifftiau nos
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg a’r polisi atal a rheoli heintiau corfforaethol ar gyfer SARS COVID-19 yn cael eu hadolygu a'u diweddaru
- Dylid gosod clychau argyfwng ym mhob ystafell ymgynghori
- Dylid adolygu ardaloedd traul i weld a ydynt yn addas at y diben ac yn unol â safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer glanweithdra
- Dylai’r staff lofnodi rhestrau gwirio priodol i gadarnhau bod gwiriadau glanhau, cyffuriau a reolir, a dyfeisiau ac offer meddygol wedi digwydd
- Dylid gwirio cynnwys y blwch dadebru brys i blant
- Dylai’r rheolwyr sicrhau bod adnoddau staff digonol ar gael ar shifftiau nos i ddiogelu parhad gwasanaeth
- Mae angen cydymffurfedd llawn ym maes hyfforddiant gorfodol staff a dylid dogfennu goruchwyliaeth staff yn ffurfiol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIA Powys) yn un o saith bwrdd iechyd ledled Cymru. Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu cymuned wledig fawr o 2,000 milltir sgwâr ac yn darparu gwasanaethau iechyd i 133,000 o bobl yn yr ardal. Oherwydd y boblogaeth fach, nid yw'r bwrdd iechyd yn darparu Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Mae gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith i'w drigolion fynychu gwasanaethau ysbyty arbenigol mewn ysbytai y tu allan i'r sir yng Nghymru a Lloegr.

Nid oes gan BIA Powys unrhyw ddarpariaeth Adran Achosion Brys, dim ond unedau mân anafiadau. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn Aberhonddu, Llandrindod, y Trallwng ac Ystradgynlais.

Mae Uned Mân Anafiadau Aberhonddu wedi'i lleoli yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu. Mae'r prif gyfleusterau yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu yn cynnwys:

- Cyfleusterau Cleifion Allanol
- Ward Gyffredinol / Feddygol i Gleifion Mewnol (Ward y Bannau)
- Ward Iechyd Meddwl Henoed i Gleifion Mewnol (Ward Crug)
- Ward Adsefydlu Cleifion Mewnol (Ward Epynt)
- Canolfan Geni dan Arweiniad Bydwragedd
- Uned Mân Anafiadau
- Cyfleusterau Pelydr-X
- Gwasanaethau Therapi
- Mân Lawdriniaeth ac Endosgopi
- Ysbyty Dydd
- Deintyddiaeth Gymunedol
- Canolfan Plant

Mae Uned Mân Anafiadau Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu yn cyflogi arweinydd tîm sy'n cael ei gefnogi gan dri ymarferydd nyrsio brys cymwys, tri ymarferydd nyrsio brys dan hyfforddiant ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd.

Ar hyn o bryd, gellir gwneud apwyntiadau i fynychu'r Uned Mân Anafiadau, er y bydd yr uned bob amser yn ymdrechu i weld claf sydd angen sylw meddygol. Mae'n ofynnol i'r cleifion gysylltu â'r ysbyty a gofyn am gael siarad â'r Uned Mân Anafiadau. Mae aelod o staff o'r Uned Mân Anafiadau yn ffonio'r claf i gynnig ymgynghoriad dros y ffôn. Os bydd angen gweld y claf, bydd yn cael amser clinig penodedig.

Nododd adroddiad blynyddol BIA Powys ar gyfer 2020/21 ei fod yn darparu gwasanaeth cyflym a chynhwysfawr yn gyson drwy ei unedau mân anafiadau.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion ag urddas a charedigrwydd. Roedd system apwyntiadau yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a'u bod yn canmol y staff.

Gwnaethom nodi rhai meysydd y mae angen eu gwella, yn enwedig o ran darparu gwybodaeth i'r cleifion, a gwrando ar adborth cleifion a dysgu ohono.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Buom yn siarad â phum claf yn ystod yr arolygiad hefyd. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Byddem yn dod i Uned Mân Anafiadau Aberhonddu dros unrhyw un o'r ysbytai eraill gan ein bod yn derbyn gofal cymesur da.*
>
> *Rydym yn ffodus bod gennym gyfleusterau Uned Mân Anafiadau yn Aberhonddu o ystyried bod Adran Achosion Brys Ysbyty Neville Hall gryn bellter i ffwrdd.*
>
> *Mae'r Uned Mân Anafiadau yn gofyn i gleifion ffonio cyn mynychu ac rwy'n teimlo bod yr uned yn rhagdybio bod gan bawb fynediad at ffôn symudol. Efallai na fydd hyn bob amser yn wir wrth gwrs.*

Dywedodd nifer o'r cleifion wrthym ei bod yn anodd cael lle parcio a bod mannau parcio amgen wedi'u lleoli gryn bellter o safle'r ysbyty.

### Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn trin y cleifion ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd. Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â hwy eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir ac yn canmol y staff.

Roedd yr ystafell aros wedi'i lleoli'n agos at brif fynedfa'r ysbyty ac roedd digon o seddi ac awyrgylch tawel. Roedd y rhan fwyaf o apwyntiadau wedi'u trefnu

ymlaen llaw, gan roi digon o le i'r cleifion eistedd yn ddiogel ac yn unol â’r gofynion cadw pellter cymdeithasol presennol.

Roedd y staff yn awyddus i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion ac roedd drysau'r ystafelloedd ymgynghori, a oedd wedi’u hynysu rhag sain, ar gau pan oedd cleifion yn cael eu hasesu.

### Gwybodaeth i gleifion

Gwnaethom nodi bod y bwrdd sepsis ar gyfer staff a chlinigwyr wedi’i lenwi’n briodol ac yn llawn gwybodaeth.

Ni ddangosodd yr Uned Mân Anafiadau unrhyw wybodaeth yn yr ystafell aros na’r mannau clinigol yn ymwneud â’r ymgyrch Dewis Doeth, sy’n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r gwasanaethau GIG sydd ar gael i gleifion. Nid oedd ychwaith unrhyw wybodaeth yn ymwneud â gwasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd GIG 111 Cymru.

Gwelsom fod gwybodaeth wedi'i harddangos yn yr Uned Mân Anafiadau a oedd yn hyrwyddo gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg ac nid Saesneg y darparwyd hon. Fe wnaethom hefyd nodi gwybodaeth yn ymwneud â grwpiau cymorth, dementia, caethwasiaeth fodern a mynediad at fanciau bwyd. Ni chyflwynwyd rhai o'r rhain yn ddwyieithog.

Nid oedd yr arwyddion yn cyfeirio cleifion at yr Uned Mân Anafiadau yn glir nac yn hawdd eu darllen ac nid oeddent yn cael eu harddangos yn ddwyieithog.

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn yr Uned Mân Anafiadau yn ymwneud â rhoi'r gorau i ysmygu na'r cyngor iechyd cymuned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai rheolwyr sicrhau bod yr holl wybodaeth ac arwyddion perthnasol i’r cleifion yn cael eu harddangos yn glir ac yn ddwyieithog yn yr Uned Mân Anafiadau.

### Cyfathrebu’n effeithiol

Gwelsom staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd ac â’r cleifion. Fe'n hysbyswyd nad oedd yr un o'r staff sy'n gweithio yn yr Uned Mân Anafiadau yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod yr holl gleifion a welwyd yn ystod yr arolygiad yn hapus i siarad trwy gyfrwng y Saesneg.

Roedd y staff yn addasu arddulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion unigolion ac yn cyflwyno eu hunain yn ôl enw ar y cyswllt cyntaf.

Roedd y staff yn broffesiynol a gwelsom dystiolaeth o aelod profiadol o staff yn tawelu sefyllfa heriol.

Dywedodd y staff wrthym fod gan yr arweinydd tîm â gofal am yr Uned Mân Anafiadau bolisi drws agored. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chydlynol rhwng y staff a'r rheolwyr a oedd ar ddyletswydd yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom nodi bod arwyddion clir ar gyfer yr Uned Mân Anafiadau o'r maes parcio. Roedd ramp wedi'i osod ym mhrif fynedfa'r ysbyty ac roedd yr Uned Mân Anafiadau wedi'i lleoli ar y llawr daear.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau priodol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, gan sicrhau cydraddoldeb yn y ddwy iaith.

## Gofal amserol

Gwelsom fod yr Uned Mân Anafiadau yn darparu system apwyntiadau yn annog y cleifion i ffonio'r ysbyty cyn galw heibio. Roedd hyn yn galluogi'r staff i siarad yn uniongyrchol â'r claf a dyrannu amserau apwyntiad, neu ailgyfeirio'r claf at wasanaethau priodol. Mae'r uned yn darparu slotiau apwyntiad 30 munud dros 24 awr. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r system apwyntiadau gan eu bod yn cael eu gweld yn brydlon.

Fe'n hysbyswyd hefyd bod yr Uned Mân Anafiadau yn derbyn cleifion sy'n cyflwyno eu hunain a bod dangosyddion perfformiad allweddol yn dangos bod pob claf yn cael ei weld o fewn pedair awr âr ôl cyrraedd.

Gwelsom hefyd ymateb prydlon gan staff yn yr Uned Mân Anafiadau i gloch argyfwng yr ysbyty.

Fe'n hysbyswyd gan un claf ei fod wedi mynychu'r Uned Mân Anafiadau a'i fod yn deall bod gwasanaeth 24 awr llawn ar gael. Fodd bynnag, roedd yr adran pelydr-X ar gau. Oriau agor yr adran pelydr-X yw rhwng 9.30am a 4pm. Cafodd y claf ei ailgyfeirio i Ysbyty Neville Hall yn y Fenni. Arweiniodd hyn at daith gron ychwanegol o 50 milltir i'r claf. Dywedodd cleifion eraill y bu rhywfaint o oedi wrth aros am belydr-X a chael y canlyniadau.

Dywedodd mwyafrif y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod parcio ceir yn broblem yn yr ysbyty. Dywedodd y cleifion wrthym ei bod yn anodd cael lle parcio a bod mannau parcio amgen wedi'u lleoli gryn bellter o safle'r ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau pelydr-X ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn hygyrch i bob aelod o'r cyhoedd. Dylai gwybodaeth hefyd amlinellu cyfleusterau pelydr-X amgen ac oriau agor estynedig a ddarperir gan fyrddau iechyd eraill.

Dylai'r bwrdd iechyd fynd ati i adolygu pryderon cleifion a godwyd mewn perthynas â'r nifer cyfyngedig o leoedd parcio sydd ar gael yn Aberhonddu.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom staff yn darparu gofal i'r cleifion yr oedd angen cymorth arnynt i gerdded.

Gwelsom staff yn delio ag aelod teulu heriol a chafodd y sefyllfa ei thawelu'n briodol.

Gwelsom glaf yn cyrraedd ag anawsterau anadlu ac ymdriniwyd â hyn yn brydlon ac yn broffesiynol gan y staff. Cafodd y claf ei ailgyfeirio'n ddiogel at y Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau[1] ar gyfer gofal meddygol.

### Hawliau pobl

Nid oedd unrhyw wybodaeth gyhoeddus ar gael yn yr Uned Mân Anafiadau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ymgorffori ansawdd a hawliau dynol ar draws pob swyddogaeth, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

[1] Gwasanaeth sy'n darparu gofal iechyd ar gyfer problemau meddygol brys y tu allan i oriau arferol meddygfa.

Dywedwyd wrthym mai dim ond un aelod o staff sydd ar ddyletswydd ar y shifft nos. Gwnaethom nodi y gallai hyn o bosibl effeithio ar hawl unigolyn i ofyn am glinigydd o'r un rhyw neu hebryngwr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai gwybodaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth fod ar gael i'r cleifion sy'n mynychu'r Uned Mân Anafiadau a'r staff a gyflogir yn yr uned.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Iechyd a Gofal mewn perthynas â hawl rhywun i ofyn am glinigydd o'r un rhyw neu hebryngwr.

## Gwrando a dysgu o adborth

Nid oeddem yn gallu lleoli unrhyw wybodaeth yn ystafell aros yr Uned Mân Anafiadau a oedd yn ymwneud â Gweithio i Wella.[2] Yn unol â Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011, rhaid i fyrddau iechyd roi cyngor i gleifion ar sut i godi pryder. Mae cysyniad Gweithio i Wella yn rhoi sicrwydd i'r claf bod y GIG yn gweithredu dull cyson o ymchwilio i bryderon sy'n gynhwysol ac yn dryloyw.

Ar adeg yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd ffurflenni adborth cleifion ar gael yn hawdd i gleifion yn yr ystafell aros neu rannau eraill o'r Uned Mân Anafiadau. Yn ogystal, roedd blwch casglu ffurflenni adborth cleifion wedi'i osod ar silff uchel yn yr ystafell aros y tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf o'r cleifion. Gwelsom ddwy ffurflen adborth y tu mewn. Nid oedd y naill na'r llall wedi ei dyddio.

Nododd adolygiad o gofnodion cyfarfodydd arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau ddiffyg trafodaeth ynghylch gwrando ar adborth cleifion a dysgu ohono. Roedd diffyg trafodaeth hefyd ynghylch casglu hanes cleifion. Mae adborth cleifion a'r adroddiad personol am daith gofal iechyd claf yn rhoi'r cyfle i'r bwrdd iechyd nodi arfer da a chydnabod meysydd sydd angen eu gwella.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth yn yr ystafell aros i ddangos bod y bwrdd iechyd yn hysbysu cleifion am adborth, gwersi a ddysgwyd a gwelliannau a wnaed.

---

[2] https://llyw.cymru/cwynion-phryderon-am-gig-cymru-gweithio-i-wella

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwyr sicrhau bod gwybodaeth am drefniadau Gweithio i Wella ar gael i gleifion yn yr Uned Mân Anafiadau, ynghyd â ffurflenni adborth, er mwyn rhoi cyfle i gleifion roi adroddiad o'u profiad gofal iechyd.

Dylai'r arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau sicrhau eu bod yn adolygu adborth y cleifion yn rheolaidd, ac yn ystyried coladu hanesion y cleifion gyda'r bwriad o roi diwylliant gwrando a dysgu ar waith yn yr adran. Yn ei dro, dylai gwybodaeth fod ar gael yn yr ystafell aros yn yr Uned Mân Anafiadau i sicrhau cleifion bod y bwrdd iechyd yn cydnabod eu hadborth, yn dysgu gwersi ac yn gwneud gwelliannau.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd yr Uned Mân Anafiadau yn lân a gwelsom drefniadau gwell ar gyfer glanhau cadeiriau ac arwynebau yn yr ystafelloedd ymgynghori ar ôl i bob claf gael ei weld.

Roedd cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a hylif llaw gwrthfacterol ar gael yn rhwydd yn yr uned.

Roedd y cleifion yn cael eu sgrinio am COVID-19 cyn mynychu'r uned ac roedd arwyddion mawr wedi'u harddangos yn annog pellter cymdeithasol ac yn hysbysu'r cleifion i beidio â mynd i mewn i'r safle os oeddent yn dangos symptomau feirws COVID-19.

Roedd nodiadau'r cleifion wedi'u hysgrifennu'n dda ac wedi'u cyflwyno mewn dilyniant rhesymegol clir o ddiagnosis.

Nid oedd gwiriadau dogfenedig ar offer dadebru oedolion a chyffuriau a reolir wedi'u llofnodi fel mater o drefn i gadarnhau eu bod wedi'u cwblhau ac roedd rhai eitemau yn y blwch dadebru brys i blant wedi dod i ben ym mis Ionawr 2022.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwnaethom adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg a nodi ei fod wedi dyddio a bod disgwyl iddo gael ei adolygu ym mis Medi 2020. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod gan y bwrdd iechyd ddull strategol wedi'i ddogfennu o ymdrin â chydnerthedd systemau sy'n cwmpasu'r cyfnod 2021/22 a'i nod yw rheoli a lliniaru risg.

Gwnaethom adolygu'r ffeil Iechyd a Diogelwch a gedwir yn yr Uned Mân Anafiadau a nodi bod nifer o bolisïau wedi dyddio. Cafodd hyn ei gywiro ar unwaith gan arweinydd y tîm.

Gwelsom draul ar arwynebau gwaith a dolenni cypyrddau pren ym mhob ystafell ymgynghori. Mynegwyd pryderon gennym ynghylch cyfyngiadau'r Uned Mân Anafiadau o ran sicrhau lefelau uchel o lanweithdra ac atal heintiau gweithredol wrth geisio glanhau'r mannau hyn. Gwelsom dap yn diferu mewn uned fasn fach ac unedau sinc wedi'u staenio, a gwelsom soced plwg darfodedig a oedd wedi'i orchuddio â thâp yn un o'r ystafelloedd ymgynghori.

Fe'n hysbyswyd bod angen newid y drysau y tu ôl i'r Uned Mân Anafiadau gan nad oeddent bellach yn addas i'r diben. Roeddent wedi bod yn cloi staff allan o'r adeilad yn gyson. Roedd hyn yn peri risg iechyd a diogelwch i'r staff a'r cleifion.

Roeddem yn gallu cerdded i mewn i'r ystafell olchi a nodi cemegau ar arwynebau gwaith. Roedd hyn yn peri risg i'r cleifion a gwnaethom hysbysu'r Uned Mân Anafiadau ar unwaith. Dywedwyd wrthym nad oedd y staff wedi cael cod allwedd y clo ac o ganlyniad nid oedd yr ystafell yn cael ei diogelu. Gosodwyd clo newydd ar adeg yr arolygiad a gwelsom fod yr ystafell wedi'i chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio.

Gwnaethom nodi nad oedd cloch argyfwng mewn dwy o'r tair ystafell ymgynghori. Roedd hyn yn peri risg i aelodau o staff, yn enwedig gweithwyr shifft nos a gweithwyr unigol. Dywedwyd wrthym fod staff yn cario larymau personol, ond byddai larwm argyfwng sefydlog ym mhob ystafell yn sicrhau arfer gorau ac yn lliniaru risg.

Gwelsom fod cornel o'r ystafell aros yn cael ei defnyddio fel storfa ar gyfer cadeiriau olwyn. Nid oedd yn ymddangos eu bod yn achosi perygl baglu, ond gwnaeth i'r ystafell ymddangos yn flêr. Gwelsom hefyd nad oedd cadeiriau plant ar gael yn rhwydd yn yr ystafell aros gan eu bod wedi'u pentyrru gyda'i gilydd a'u gosod o'r neilltu.

Roedd yr Uned Mân Anafiadau wedi nodi pwyntiau clymu[3] ond ni allem fod yn sicr bod gan yr uned fesurau lliniaru digonol ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion sydd mewn perygl o hunan-niweidio pan nad ydynt yn cael eu goruchwylio mewn ystafelloedd ymgynghori.

---

[3] Pwynt clymu yw unrhyw beth y gellir ei ddefnyddio i glymu rhaff, cortyn neu fath arall o ddeunydd at ddiben hunan-niweidio trwy hongian.

Fe'n hysbyswyd bod staff sy'n gweithio yn yr Uned Mân Anafiadau yn arfer cael mynediad at gyngor ac arweiniad trwy linell uniongyrchol at feddyg ymgynghorol enwebedig yn Ysbyty Neville Hall. Roedd y meddyg ymgynghorol hwn hefyd yn ymweld yn rheolaidd ag Uned Mân Anafiadau Aberhonddu. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth hwn ar gael bellach a mynegodd staff bryderon nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol. Eglurodd y staff fod yn rhaid iddynt ffonio Ysbyty'r Grange yng Nghwmbrân a cheisio cymorth a chyngor gan ystod o wasanaethau arbenigol ac yna ailgyfeirio cleifion i Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Dylai’r rheolwyr yr Adran Ystadau adolygu socedi plygiau darfodedig a chymryd camau priodol yn unol ag arferion iechyd a diogelwch.

Dylid adolygu mannau traul ar arwynebau gwaith a dolenni drysau pren i weld a ydynt yn ddigonol at y diben ac a ellir eu glanhau yn unol â’r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer glanweithdra fel y nodir yn Safonau Cenedlaethol ar gyfer Glanhau GIG Cymru.

Dylid asesu drysau y tu cefn i'r uned a chymryd camau i ysgogi gwaith adfer neu osod rhai newydd yn eu lle er mwyn diogelu iechyd a diogelwch y cleifion a’r staff.

Gosod clychau argyfwng ym mhob ystafell ymgynghori yn yr Uned Mân Anafiadau.

Y rheolwyr i adolygu'r trefniadau priodol ar gyfer storio cadeiriau olwyn a seddau plant a’u gwneud ar gael yn rhwydd i’r cleifion.

Dylai’r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yr Uned Mân Anafiadau yn gallu cael mynediad at wasanaeth cyngor ac arweiniad meddygol penodedig a chyson.

### Atal niwed pwyso a niwed i feinwe

Nid oedd y staff yn ymwybodol bod unrhyw ganllawiau neu bolisïau penodol ar gyfer atal pwysedd a niwed i feinwe. Gwnaethom adolygu sampl o nodiadau’r cleifion a nodi nad oedd staff yn cwblhau asesiadau pwysedd neu niwed i feinwe fel mater o drefn. Er i ni gydnabod nad yw cleifion yn yr uned am gyfnodau estynedig o amser, roeddem yn teimlo y dylai'r uned fod yn asesu cleifion â chyflyrau sy'n bodoli eisoes a phroblemau symudedd.

Dywedodd y staff wrthym fod gan yr ysbyty offer lleddfu pwysedd priodol ar gael iddynt pe bai eu hangen arnynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r staff sicrhau bod asesiadau pwysedd a niwed i feinwe'n cael eu cwblhau ar yr amser priodol a'u dogfennu yn nodiadau’r cleifion.

### Atal cwympiadau

Fe'n hysbyswyd bod gan yr uned fynediad at slingiau, teclynnau codi a cherddwyr ar gyfer y cleifion hynny sydd mewn perygl o gwympo.

Fe'n hysbyswyd y gall staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain ar shifftiau nos ofyn am gymorth gan wardiau’r ysbyty pe bai angen cymorth arnynt gyda chlaf sydd mewn perygl o gwympo.

### Atal a rheoli heintiau

Nododd adolygiad o bolisïau fod y polisi atal a rheoli heintiau corfforaethol ar gyfer SARS COVID-19 wedi dyddio ac i gael ei adolygu ym mis Awst 2021. Mae angen adolygu’r polisi hwn yn amserol er mwyn sicrhau bod y feirws yn cael ei reoli’n briodol yn ystod y pandemig sy’n datblygu’n gyflym.

Roedd yr Uned Mân Anafiadau i'w gweld yn lân a gwelsom staff domestig yn glanhau'r lloriau a'r cadeiriau. Gwelsom drefniadau uwch ar gyfer glanhau cadeiriau ac arwynebau yn yr ystafelloedd ymgynghori ar ôl i bob claf gael ei weld. Roedd y toiledau wedi'u lleoli yn yr Uned Mân Anafiadau a gwelwyd eu bod yn lân ac yn hygyrch i bob claf.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfarpar diogelu personol priodol[4] a masgiau FFP3[5] mewn ymateb i'r pandemig. Roedd stociau digonol o gyfarpar diogelu priodol ar gael yn rhwydd yn yr uned a gwelsom staff yn darparu masgiau llawfeddygol gwrthsefyll hylif a gymeradwywyd gan y GIG i gleifion.

Fe'n hysbyswyd bod staff yn cael eu mandadu i gwblhau asesiad risg COVID-19 bob chwe mis a bod hwn yn cael ei fewnbynnu i'r cofnod staff electronig.[6]

Mae'r cleifion yn cael eu sgrinio am COVID-19 cyn mynychu'r uned trwy'r system apwyntiadau ac roedd arwyddion mawr wedi'u harddangos yn yr ysbyty yn hysbysu'r cleifion i beidio â mynd i mewn i'r safle os oeddent yn dangos symptomau feirws COVID-19.

Yn unol â chanllawiau cyfredol y llywodraeth, gwelsom arwyddion a oedd yn annog y cleifion a'r staff i gadw pellter o ddau fetr a nodwyd bod mannau eistedd wedi'u haddasu i gynnal pellter cymdeithasol. Roedd hylif llaw gwrthfacterol a masgiau wyneb ar gael wrth fynedfa'r ysbyty a hefyd yn yr Uned Mân Anafiadau.

Nid oedd yr Uned Mân Anafiadau yn arddangos gwybodaeth am ei chydymffurfedd â gofynion y bwrdd iechyd ar gyfer atal a rheoli heintiau, ond gwelsom dystiolaeth o archwiliadau hylendid dwylo adrannol a nodwyd bod yr holl staff yn cydymffurfio â gofyniad y bwrdd iechyd ar gyfer golchi dwylo'n rheolaidd rhwng cleifion a thriniaethau a'r polisi noeth islaw'r penelin.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Adolygu a diweddaru'r polisi atal a rheoli heintiau corfforaethol ar gyfer SARS COVID-19.

---

[4] https://phw.nhs.wales/about-us/policies-and-procedures/policies-and-procedures-documents/risk-management-health-and-safety-and-estates-supporting-documents/management-of-personal-protective-equipment-guidance/

[5] https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/information-for-health-and-social-care/faq-003/

[6] https://my.esr.nhs.uk/dashboard/web/esrweb

Yr Uned Mân Anafiadau i arddangos cydymffurfedd atal a rheoli heintiau yn ystafell aros y claf.

### Maeth a hydradu

Gwelsom fod peiriant dŵr ar gael i’r cleifion yn yr ystafell aros yn yr Uned Mân Anafiadau.

Roedd y peiriant gwerthu mawr a oedd wedi cynnig amrywiaeth o ddiodydd a byrbrydau bellach yn segur ond arhosodd yn ei le yn yr ystafell aros. Fe'n hysbyswyd y byddai’r cleifion yn cael cynnig bwyd a diod ar yr amser priodol, ond gwelsom fod cyfleusterau'r ffreutur yn gyfyngedig a bod oriau agor wedi'u cyfyngu i oriau yn ystod y dydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai rheolwyr adolygu'r cyfleusterau presennol sydd ar waith ar gyfer maeth a hydradu cleifion a'u teuluoedd wrth fynychu’r Uned Mân Anafiadau a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth ac yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd yn ymddangos bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel a chyffuriau a reolir[7] yn cael eu cadw dan glo. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwiriad dyddiol ar gyfer cyffuriau a reolir wedi'i gwblhau am gyfnod o dridiau yn ystod un cyfnod o 14 diwrnod. Codwyd y diffyg llythrennau blaen ar y cofnod gwirio dyddiol gyda'r arweinydd tîm, a roddodd sicrwydd i ni fod yr aelod o staff asiantaeth rheolaidd wedi gwirio'r rhain ond nad oedd wedi llofnodi'r cofnod gwirio.

[7] https://www.nice.org.uk/guidance/NG46/ifp/chapter/information-for-people-using-and-looking-after-controlled-medicines

Gwnaethom nodi bod gan y bwrdd iechyd weithdrefnau gweithredu safonol cyfredol ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gedwir mewn oergell, ond roedd gwybodaeth a gyflwynwyd ar yr oergell feddyginiaeth yn yr Uned Mân Anafiadau yn nodi bod gwasanaeth yn hwyr gan fod y cyfnod cynnal a chadw wedi dod i ben ym mis Mawrth 2021.

Cadarnhaodd adolygiad o nodiadau’r cleifion fod y broses o roi meddyginiaethau’n cael ei dogfennu'n gyson ac ar y pryd.

Fe'n hysbyswyd bod yr holl gyffuriau a ragnodir gan yr Uned Mân Anafiadau yn cael eu rhoi trwy'r Gyfarwyddeb Grŵp Cleifion neu eu hawdurdodi gan feddyg teulu neu wasanaeth y tu allan i oriau gan nad oes yr un o'r staff yn yr Uned Mân Anafiadau yn rhagnodwr hyfforddedig. Nododd adolygiad o weithdrefn y Gyfarwyddeb Grŵp Cleifion fod y ddogfen wedi dyddio a bod disgwyl iddi gael ei hadolygu ym mis Hydref 2021. Mae'r weithdrefn hon yn grymuso gweithwyr iechyd proffesiynol i gyflenwi a rhoi meddyginiaethau yn unol â chanllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) a dylid ei diweddaru er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi'n ddiogel i gleifion.

Fe'n hysbyswyd nad oedd y Gyfarwyddeb Grŵp Cleifion wedi cymeradwyo'r defnydd o wrthfiotigau i dargedu clwyfau heintiedig yn benodol ac, o ganlyniad, mae'n rhaid i’r Uned Mân Anafiadau gysylltu â meddygon teulu lleol neu'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau i ofyn am bresgripsiwn a'i awdurdodi. Gall hyn ohirio triniaeth effeithiol a gallai effeithio ar ofal diogel ac effeithiol.

Roedd canllawiau clinigol ar gyfer BIA Powys wedi dyddio. Gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu defnyddio gan staff yn yr Uned Mân Anafiadau a dylent fod wedi cael eu hadolygu yn 2019 (fe’u hysgrifennwyd yn 2016).

### Yr hyn y mae angen ei wella

Gwiriadau cyffuriau a reolir i gael eu llofnodi'n amserol i gadarnhau eu bod wedi'u cwblhau.

Y rheolwyr i ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhagnodi cyffuriau ac unrhyw anghenion hyfforddi.

Gweithdrefn y Gyfarwyddeb Grŵp Cleifion i gael ei hadolygu a'i diweddaru.

Y Gyfarwyddeb Grŵp Cleifion i gymeradwyo'r defnydd o wrthfiotigau yn yr Uned Mân Anafiadau i sicrhau y darperir triniaeth effeithiol.

Canllawiau clinigol i gael eu hadolygu a'u diweddaru.

Trefniadau i'w gwneud i sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth yn cael ei gwasanaethu'n ddi-oed yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y bwrdd iechyd.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan BIA Powys bolisi diogelu cyfredol ar waith a oedd wedi’i ddatblygu o amgylch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer codi pryder ynghylch diogelu a bod ganddynt fynediad at bolisïau a gweithdrefnau ar dudalen fewnrwyd unedau mân anafiadau'r bwrdd iechyd pe bai angen arweiniad pellach arnynt.

Roedd siartiau llif diogelu wedi'u cyflwyno'n dda ac yn cynnwys nodiadau clinigol manwl.

Nid oedd tri aelod o staff yn bodloni’r gofynion hyfforddiant diogelu gorfodol diweddaraf. Dywedodd yr arweinydd tîm wrthym fod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau lleoedd ar gyrsiau priodol.

Mynegodd staff bryderon bod angen asesiad iechyd meddwl gan feddyg teulu ar gyfer y cleifion sy'n cyflwyno eu hunain mewn perygl o hunan-niweidio. Roedd y staff yn bryderus y gallai oedi wrth drefnu a chael mynediad at asesiadau effeithio ar iechyd a diogelwch y claf.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Staff i gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol.

Dylai’r rheolwyr adolygu a gwella’r broses bresennol o gael asesiadau iechyd meddwl ar gyfer y cleifion sydd mewn perygl o hunan-niweidio.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom wiriadau dogfenedig o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol a oedd yn cael eu cadw mewn ystafelloedd ymgynghori. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd gwiriadau ar offer dadebru oedolion wedi cael eu llofnodi gan staff am dri diwrnod o fewn cyfnod o 14 diwrnod. Codwyd hyn ar unwaith gyda'r arweinydd tîm, a roddodd sicrwydd i ni fod y gwiriadau hyn wedi'u cwblhau gan aelod rheolaidd o staff asiantaeth ond ei bod yn cydnabod yr angen i atgoffa'r unigolyn hwnnw i lofnodi’r adran briodol.

Gwelsom fod blwch dadebru brys y plant wedi'i guddio a'i fod wedi'i orchuddio â phapurau. Roeddem o'r farn bod hwn yn arfer gwael gan nad oedd yr offer yn gwbl weladwy. Roedd hyn yn peri risg pe bai argyfwng, yn enwedig i staff newydd a staff asiantaeth. Fe'n hysbyswyd mai Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sy'n gyfrifol am adolygu cynnwys y blwch a phrofi offer yn briodol. Roedd dogfennau cynnal a chadw yn nodi nad oedd disgwyl i'r blwch dadebru gael ei adolygu tan fis Awst 2022, ond gwnaethom sylwi bod nifer o eitemau yn y blwch wedi dod i ben ym mis Ionawr 2022.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid atgoffa'r holl staff i lofnodi'r rhestr wirio briodol i gadarnhau bod gwiriadau ar ddyfeisiau ac offer meddygol wedi'u cwblhau.

Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod cynnwys blwch dadebru brys y plant yn cael ei wirio.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom adolygu a gwirio pum set o nodiadau cleifion yn ystod ein harolygiad. Roedd gwybodaeth yn ymwneud â hanes clinigol claf ac arsylwadau priodol wedi'i hysgrifennu'n dda ac wedi'i chyflwyno mewn dilyniant rhesymegol clir o ddiagnosis. Gwelsom rai enghreifftiau o ddyblygu nodiadau clinigol a oedd wedi'u hysgrifennu â llaw ac a oedd wedi'u mewnbynnu i System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS).[8]

Roedd lefel y boen a brofwyd gan y cleifion yn cael ei hasesu'n briodol a'i dogfennu yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn defnyddio Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol[9] ar gleifion sy'n ddifrifol wael,

[8] https://igdc.gig.cymru/systemau-a-gwasanaethau/gofal-eilaidd/

[9] Offeryn a ddatblygwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon yw'r Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, un sy'n gwella'r gwaith o ganfod ac ymateb i ddirywiad clinigol mewn cleifion sy'n oedolion. Mae hefyd yn elfen allweddol o ddiogelwch cleifion a gwella canlyniadau i gleifion.

gan uwchgyfeirio pryderon i'r ystafell reoli ambiwlans ar yr adeg briodol. Roedd sgrinio sepsis hefyd yn amlwg.

Roedd yr holl wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod y cleifion yn ymwneud â'r Uned Mân Anafiadau yn cael ei chadw mewn ystafell ar wahân i ffwrdd o'r mannau clinigol a'r ystafelloedd aros. Gwelsom fod llyfr archwilio'r adran pelydr-X, a oedd yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod y cleifion, ar gau bob amser.

Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol mewn cymorth bywyd ar unwaith[10] a bod y rhan fwyaf o'r staff wedi'u hyfforddi mewn cynnal bywyd pediatrig ar unwaith.[11] Fe'n hysbyswyd hefyd bod dau aelod o staff wedi'u hyfforddi mewn cynnal bywyd uwch.

Nid oedd staff yn ymwybodol a oedd gan y bwrdd iechyd weithdrefn weithredu safonol ddogfenedig ar gyfer trosglwyddo cleifion mewn ambiwlans o'r Uned Mân Anafiadau neu weithdrefn i reoli cludo cleifion i gyfeiriadau cartref. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi profi rhywfaint o oedi wrth ofyn am drosglwyddo cleifion mewn ambiwlans o'r Uned Mân Anafiadau i ysbyty arall, ond gwnaethant ddweud wrthym y gallent ffonio'r ystafell reoli ambiwlans ac ailddosbarthu ceisiadau pe bai cyflwr claf yn gwaethygu.

Gwelsom fod y goleuadau yn y prif goridor yn wan ac yn isel, a holasom a allai hyn achosi anawsterau i gleifion â dementia a nam ar eu golwg.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Staff i gael gweithdrefnau gweithredu safonol dogfenedig ar gyfer trosglwyddo cleifion o'r Uned Mân Anafiadau trwy Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru neu weithdrefnau i reoli cludo cleifion i gyfeiriadau cartref.

---

[10] https://www.resus.org.uk/training-courses/adult-life-support/ils-immediate-life-support

[11] https://www.resus.org.uk/training-courses/paediatric-life-support/pils-paediatric-immediate-life-support

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd y staff wrthym fod cyflwyno’r system apwyntiadau wedi gwella gofal cleifion gan ei fod wedi eu galluogi i frysbennu cleifion yn effeithiol ac yn effeithlon, sgrinio ar gyfer COVID-19, a chynnig apwyntiadau a oedd yn galluogi cadw pellter cymdeithasol a gofal amserol.

Gwnaethant ddweud wrthym hefyd fod y system hon yn eu galluogi i ailgyfeirio cleifion at y gwasanaeth priodol yn ôl yr angen.

Gwnaethom nodi bod gan y bwrdd iechyd Fframwaith Ansawdd Clinigol cyfredol a oedd â'r nod o ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel gyda gwelliant parhaus o flwyddyn i flwyddyn.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom set o nodiadau cleifion yn y toiledau merched yn yr Uned Mân Anafiadau. Dywedwyd wrthym fod claf a ymwelodd ag adran cleifion allanol Ysbyty Aberhonddu wedi cael y nodiadau ac y gofynnwyd iddi eu cyflwyno yn ystod ei hapwyntiad. Roedd y claf wedi eu gadael yn y toiledau yn anfwriadol. Dywedodd yr uwch-reolwr ar gyfer gofal heb ei drefnu wrthym mai amryfusedd oedd hwn ac na fyddai nodiadau fel arfer yn cael eu rhoi i gleifion gan eu bod fel arfer yn cael eu cludo rhwng safleoedd gan BIA Powys. Mynegwyd pryderon gennym y gallai hyn fod wedi arwain at dorri cyfrinachedd. Rhoddodd y rheolwyr sicrwydd i ni y byddai'r digwyddiad hwn yn cael ei adrodd ar y system Datix[12] ac yn cael ei adolygu yn unol â hynny.

Nid oedd yr Uned Mân Anafiadau yn arddangos amseroedd aros yn yr ystafell aros. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth a gadarnhawyd bod y cleifion yn cael eu trin yn gyson o fewn pedair awr i amser eu hapwyntiad ar draws unedau mân anafiadau ym Mhowys.

---

[12] https://nwssp.nhs.wales/all-wales-programmes/community-pharmacy-patient-safety-incident-reporting-wales/incident-reporting-documents/ofwcms-community-pharmacy-patient-safety-reporting-april- 2022-pdf-520kb/

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y rheolwyr i ymchwilio i'r digwyddiad yn ymwneud â nodiadau cleifion a ganfuwyd yn y toiledau merched yn yr Uned Mân Anafiadau a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac nad yw arferion gwael yn cael eu hailadrodd.

## Cadw cofnodion

Gwelsom fod nodiadau meddygol cleifion yn gynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu'n dda.

Gwnaethom adolygu gwiriadau glanhau cofnodedig yn yr ystafelloedd dadebru, plant ac Omnicell,[13] gan nodi nifer o enghreifftiau lle nad oedd y rhestrau gwirio wedi'u cwblhau'n llawn. Rhoddodd y rheolwyr sicrwydd i ni fod y gwiriadau wedi'u cwblhau a bod yr aelod o staff wedi methu â llofnodi’r adrannau priodol. Cadarnhaodd y rheolwyr y byddent yn atgoffa’r staff o bwysigrwydd llofnodi dogfennau fel cadarnhad eu bod wedi'u cwblhau.

Gwnaethom adolygu cyfres o wiriadau matresi ac archwiliadau pelydr-X. Er eu bod yn cael eu cwblhau'n rheolaidd, roedd yn ymddangos bod y manylion yn anghyflawn ac nid oedd canlyniad pob archwiliad wedi'i ddogfennu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Gwiriadau glanhau i gael eu llofnodi i ddangos eu bod wedi'u cwblhau.

Adolygu archwiliadau o fatresi a phelydrau-X gyda'r bwriad o ddarparu trywydd archwilio dogfenedig llawn a chanlyniad.

[13] Mae Omnicell yn gabinet dosbarthu meddyginiaeth awtomataidd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Teimla'r staff eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell a gwelsom ddeinameg dda o fewn y tîm. Dangosodd yr uned ei bod yn llwyddo i ddenu a hyfforddi gweithwyr newydd.

Gwelsom le penodol ar fewnrwyd y bwrdd iechyd a oedd yn galluogi'r staff yr Uned Mân Anafiadau i weld yr holl bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau gwaith perthnasol a phriodol.

Gwelsom system effeithiol o apwyntiadau a brysbennu dros y ffôn a thystiolaeth bod y cleifion yn cael eu gweld o fewn pedair awr i amser eu hapwyntiad.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd y rheolwyr yn weladwy ac yn cynnal polisi drws agored. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol a bod ganddynt fynediad at therapi galwedigaethol a gwasanaethau llesiant.

Gwnaethom adolygu tudalen fewnrwyd gynhwysfawr ar yr Uned Mân Anafiadau a oedd yn rhoi gwybodaeth gyffredinol, canllawiau clinigol a chyfeiriadau polisi i staff. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â meddyginiaeth, diogelu, llywodraethu a hyfforddiant.

Gwnaethom adolygu dangosyddion perfformiad allweddol dogfenedig a oedd yn dangos bod y bwrdd iechyd yn mynd ati i goladu data ar nifer y cleifion a fynychodd yr Uned Mân Anafiadau yn Aberhonddu. Roedd y data hwn yn dangos bod nifer y cleifion sy'n mynychu'r uned bellach yn cynyddu yn dilyn y cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i'r pandemig.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod system trefnu apwyntiadau wedi'i rhoi ar waith yn Uned Mân Anafiadau Aberhonddu mewn ymateb i'r pandemig. Roedd y system archebu hon yn dal ar waith ar adeg yr arolygiad. Gwelsom staff yn siarad â chleifion dros y ffôn ac yn gwneud asesiadau rhagarweiniol i bennu pa mor frys

oedd eu hangen am driniaeth. Gwnaethom nodi bod staff wedi achub ar y cyfle i sgrinio cleifion am COVID-19 cyn rhoi apwyntiad neu eu hailgyfeirio at y gwasanaeth gofal iechyd priodol.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod y system apwyntiadau yn sicrhau bod cleifion yn cael amser penodedig ar gyfer mynychu'r uned, gan sicrhau ymateb amserol i'w hanghenion. Cawsom ddata a oedd yn dangos bod yr holl gleifion a welwyd yn Uned Mân Anafiadau Aberhonddu wedi cael eu gweld o fewn pedair awr i amser eu hapwyntiad am y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â'r staff a oedd ar ddyletswydd a dosbarthu holiaduron AGIC i'r staff i gael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff y canlynol wrthym:

*Byddent yn argymell BIA Powys fel lle i weithio*

*Roedd y cyfleusterau'n briodol i'w galluogi i gwblhau tasgau dyddiol ac roedd yr amgylchedd yn caniatáu iddynt ddarparu gofal priodol i'r cleifion yn y man mynychu*

*Nododd y staff fod hyfforddiant, dysgu a datblygiad yn caniatáu iddynt wneud eu gwaith yn effeithiol ac yn ddiogel*

*Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer a'u bod yn gallu bodloni'r holl ofynion gwaith sy'n gwrthdaro*

Mae'r Uned Mân Anafiadau yn cyflogi tri ymarferydd nyrsio brys cymwys ac mae'n gweithredu menter lwyddiannus i ddenu a hyfforddi ymarferwyr nyrsio brys.

Mae ymarferwyr nyrsio brys dan hyfforddiant yn elwa ar gynllun cymhelliant gweithwyr ac yn cael eu cefnogi gan y bwrdd iechyd i astudio ac ennill y cymhwyster ymarferydd nyrsio brys. Mae'r staff hyn wedi ymrwymo i weithio i'r Uned Mân Anafiadau am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl cymhwyso. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd adnoddau i'r bwrdd iechyd ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd cynllunio'r gweithlu.

Dywedwyd wrthym fod un aelod o staff hyfforddedig ac un heb ei hyfforddi yn gweithio shifftiau dydd ond mai dim ond un ymarferydd nyrsio brys hyfforddedig sy'n gweithio ar y shifft nos. Fe'n hysbyswyd bod yr Uned Mân Anafiadau yn defnyddio gwasanaethau asiantaeth i lenwi bylchau mewn adnoddau.

Yn ystod yr arolygiad, roedd yr uned ar gau dros nos am gyfnod o 12 awr. Roedd hyn o ganlyniad i salwch munud olaf a adroddwyd gan aelod o staff asiantaeth. Gwnaethom gadarnhau bod yr Uned Mân Anafiadau wedi dilyn y broses gywir mewn perthynas â chau'r gwasanaeth. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd nad yw'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn gallu hysbysu llinell gymorth feddygol GIG 111 ynghylch cau'r uned. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu llinell gymorth feddygol ddi-argyfwng am ddim i gleifion yng Nghymru. Gan nad oedd GIG 111 wedi cael gwybod am yr uned yn cau, gallai fod wedi cyfeirio aelod o'r cyhoedd i'r uned o bosibl ac yn amhriodol. Gallai hyn fod wedi peryglu iechyd a diogelwch y claf.

Fe'n hysbyswyd nad oedd yr ymarferwyr nyrsio brys a gyflogir gan yr Uned Mân Anafiadau yn Aberhonddu yn gallu rhagnodi meddyginiaeth gan nad oedd ganddynt y cymwysterau angenrheidiol. Dibynnwyd ar feddygon teulu lleol a'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, a oedd weithiau'n achosi oedi i'r broses o roi gofal i gleifion a'u rhyddhau.

Nodwyd bod cydymffurfedd cyffredinol â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn 81%. Dywedwyd wrthym nad oedd rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi bod ar gael yn ystod y pandemig. Dangosodd adolygiad o'r cofnod staff electronig fod y rheolwyr wedi bod wrthi'n cadw lle staff ar gyrsiau hyfforddi dadebru, codi a chario, ac iechyd, diogelwch a lles.

Cawsom dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi derbyn arfarniadau personol ac adolygiadau datblygu a nododd y cofnod staff electronig fod gan yr Uned Mân Anafiadau sgôr gydymffurfio o 87.5%. Fodd bynnag, nododd adolygiad o ddogfennau fod rhai o'r ffurflenni arfarnu yn anghyflawn ac nad oeddent wedi'u llofnodi na'u dyddio.

Fe'n hysbyswyd bod cyfarfodydd tîm wedi digwydd yn anaml yn ystod y pandemig, gyda'r cyfarfod diwethaf yn cael ei gynnal ym mis Awst 2021. Dywedodd y rheolwyr hefyd fod rhai aelodau o staff yn ei chael yn anodd mynychu cyfarfodydd. Dylid annog cyfarfodydd staff gan eu bod yn rhoi cyfle i reolwyr rannu gwybodaeth gyfredol, annog dynameg dda yn y tîm a darparu fforwm ar gyfer trafodaeth agored.

Fe'n hysbyswyd bod y staff yn cael eu goruchwylio'n anffurfiol ac nad yw hyn yn cael ei ddogfennu. Dylid dogfennu goruchwyliaeth i ddarparu tystiolaeth o gefnogaeth a dysgu proffesiynol sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a phroffesiynol staff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r rheolwyr sicrhau bod adnoddau staff digonol ar gael ar shifftiau nos i ddiogelu parhad gwasanaeth.

Rheolwyr i wneud trefniadau i hysbysu llinell gymorth feddygol GIG 111 ynghylch cau’r uned.

Dylid ystyried annog a chefnogi staff i ennill cymhwyster rhagnodi anfeddygol neu ragnodi nyrs annibynnol.

Dylai’r rheolwyr sicrhau cydymffurfedd llawn â hyfforddiant gorfodol staff.

Dylai’r rheolwyr sicrhau bod dogfennau ar gyfer sesiynau arfarnu perfformiad ac adolygu datblygiad yn cael eu cwblhau’n llawn yn unol â gofynion y bwrdd iechyd.

Dylai’r rheolwyr sicrhau bod staff yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd, bod trafodaethau'n cael eu dogfennu, a bod y canlyniadau'n cael eu rhannu â'r staff hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Dylai’r rheolwyr sicrhau bod goruchwyliaeth staff yn cael ei dogfennu'n ffurfiol.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethu a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob tro yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd oherwydd bod hyn yn ein caniatáu i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am Sut mae AGIC yn arolygu'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nid oedd y clo digidol i'r ystafell olchi yn cael ei ddefnyddio ac roeddem yn gallu cerdded yn syth i'r ystafell a nodi cemegau ar arwynebau gwaith. Dywedwyd wrthym nad oedd y staff wedi cael cod allwedd y clo ac o ganlyniad nid oedd yr ystafell yn cael ei diogelu. | Mae mynediad at gemegau yn peri risg i gleifion. Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Hysbyswyd y rheolwyr. | Gosodwyd clo newydd ar adeg yr arolygiad a gwelsom fod yr ystafell dan glo pan nad oedd yn cael ei defnyddio. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Ysbyty: Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu

### Ward/adran: Uned Mân Anafiadau

### Dyddiadau'r arolygiad: 8 a 9 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chodwyd unrhyw faterion sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Ysbyty: Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu

### Ward/adran: Uned Mân Anafiadau

### Dyddiad yr arolygiad: 8 a 9 Mawrth 2022

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i’r afael â’r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai rheolwyr sicrhau bod yr holl wybodaeth cleifion ac arwyddion perthnasol yn cael eu harddangos yn glir ac yn ddwyieithog yn yr Uned Mân Anafiadau. | 4.2 Gwybodaeth i gleifion | Cyfieithu'r holl wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn yr Uned Mân Anafiadau ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg gydag arddangosfa glir. Prynu mwy o fyrddau i hwyluso mwy o arwyddion. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Diwedd Gorffennaf 2022 |
| Rhaid i’r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau priodol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â’r Saesneg, gan sicrhau cydraddoldeb yn y ddwy iaith. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Sicrhau bod yr holl arwyddion ar gyfer gwasanaethau o fewn yr ysbyty ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r holl wybodaeth ar fewnrwyd y bwrdd iechyd ar gyfer unedau mân anafiadau wedi'i hadolygu ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Diwedd Awst 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau pelydr-X ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn hygyrch i bob aelod o'r cyhoedd. Dylai gwybodaeth hefyd amlinellu cyfleusterau pelydr-X amgen ac oriau agor estynedig a ddarperir gan fyrddau iechyd eraill. | 5.1 Mynediad amserol | Arddangos amserlen o wasanaethau pelydr-X yn glir i bob aelod o'r cyhoedd ar fwrdd arddangos yr Uned Mân Anafiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynnwys cyfleusterau amgen ac oriau gweithredu yn yr hyn a arddangosir. Mae amseroedd gwasanaethau pelydr-X ar gael ar y fewnrwyd. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Diwedd Gorffennaf 2022 |
| Dylai'r bwrdd iechyd fynd ati i adolygu pryderon cleifion a godwyd mewn perthynas â'r nifer cyfyngedig o leoedd parcio sydd ar gael yn Aberhonddu. | | Nodi themâu cyffredin cwynion am barcio ceir ochr yn ochr â'r tîm ansawdd a diogelwch. Mae datblygiad maes parcio newydd ar y gweill. Bydd y datblygiad hwn yn cael ei arddangos yn glir ar fwrdd gwybodaeth ar gyfer pob unigolyn sy'n mynd i Ysbyty Aberhonddu i adlewyrchu camau gweithredu a chynlluniau'r bwrdd iechyd. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Diwedd Awst 2022<br><br>Disgwylir i'r maes parcio gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2022 |
| Dylai gwybodaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth fod ar gael i | 6.2 Hawliau pobl | Bydd gwybodaeth yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael i'r Uned Mân Anafiadau a'r staff a gyflogir yn | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau | Diwedd Medi 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gleifion sy'n mynychu'r Uned Mân Anafiadau a staff a gyflogir yn yr uned. | | yr uned. Bydd hon yn cael ei harddangos ar ffurf poster ymrwymiad corfforaethol yn manylu ar farn y bwrdd iechyd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a sut y cyflawnir hyn o fewn yr uned. | Aberhonddu ac Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | |
| Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Iechyd a Gofal mewn perthynas â hawl unigolyn i ofyn am glinigydd o'r un rhyw neu hebryngwr. | | Bydd holl staff yr Uned Mân Anafiadau yn sicrhau eu bod yn cael cynnig hebryngwr cyn i glaf gael ei weld pan nad oes clinigydd o'r un rhyw ar gael. Caiff ffurflenni asesu cleifion eu hadolygu i gynnwys y cwestiwn hwn a'u defnyddio at ddibenion archwilio a chydymffurfio. Bydd yr Uned Mân Anafiadau yn gweithio gyda wardiau i sicrhau cefnogaeth cymheiriaid wrth gynnig yr hebryngwr. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Diwedd Medi 2022 |
| Dylai rheolwyr sicrhau bod gwybodaeth am drefniadau Gweithio i Wella ar gael i gleifion yn yr Uned Mân Anafiadau, ynghyd â ffurflenni adborth, er mwyn rhoi cyfle i gleifion adrodd am eu profiad o ofal iechyd. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Ymgorffori system adborth electronig yn yr Uned Mân Anafiadau.<br><br>Fel mesur dros dro, gosod ffurflenni yn fwy gweladwy yn y man aros gydag arwydd i annog eu cwblhau ac eglurhad | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch<br><br>Arweinydd Tîm yr Uned Mân Anafiadau ar | Erbyn diwedd Hydref 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | o'r hyn y bydd yr uned yn ei wneud gyda'r adborth. | gyfer y mesur dros dro | Erbyn diwedd Gorffennaf 2022 |
| Dylai arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau sicrhau eu bod yn adolygu adborth cleifion yn rheolaidd, ac yn ystyried coladu straeon cleifion gyda'r bwriad o ymwreiddio diwylliant o wrando a dysgu yn yr adran. Yn ei dro, dylai gwybodaeth fod ar gael yn yr ystafell aros yn yr Uned Mân Anafiadau i roi sicrwydd i gleifion bod y bwrdd iechyd yn cydnabod eu hadborth, yn dysgu gwersi, ac yn gwneud gwelliannau. | | Ailsefydlu bwrdd “Gwybod sut mae pethau'n mynd” o fewn yr uned sy'n cynnwys adborth o gwynion/canmoliaeth a'r hyn y mae'r uned a'r bwrdd iechyd wedi'i wneud o ganlyniad.<br><br>Defnyddio cyfleoedd adborth i ofyn am straeon cleifion, rhannu’r rhain ar y bwrdd, a rhannu’r rhain hefyd mewn cyfarfodydd arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau yn fisol, gan gynnwys mwy o fanylion a’r camau gweithredu a gymerwyd. Rhoi’r adborth ar ffurf electronig neu bapur yn dibynnu ar ddewis y claf. | Arweinydd Tîm yr Uned Mân Anafiadau<br><br>Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Erbyn diwedd Gorffennaf 2022<br><br>Erbyn diwedd Medi 2022 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru. | | Bydd y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau | Diwedd Awst 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | | Sylfaenol a Chymunedol | |
| Dylai rheolwyr yr adran ystadau adolygu socedi plygiau darfodedig a chymryd camau priodol yn unol â gofynion iechyd a diogelwch. | | Hysbysu am socedi plwg ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo | Wedi'i gwblhau gan eu bod wedi'u hatgyweirio bellach |
| Dylid adolygu ardaloedd traul ar arwynebau gwaith a dolenni drysau pren i weld a ydynt yn ddigonol at y diben a bod y gallu i’w glanhau yn unol â’r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer glanweithdra fel y cynghorir yn Safonau Cenedlaethol ar gyfer Glanhau GIG Cymru. | | Arwynebau gwaith a dolenni wedi'u cofnodi gan arweinydd tîm yr Uned Mân Anafiadau i'w hatgyweirio a'u harchwilio. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo | Diwedd Gorffennaf 2022 |
| Dylid asesu drysau y tu cefn i'r uned a chymryd camau i ysgogi gwaith adfer neu osod rhai newydd yn eu lle er mwyn diogelu iechyd a diogelwch cleifion a staff. | | Wedi'i asesu a'i adrodd i'r tîm ystadau gan arweinydd tîm yr Uned Mân Anafiadau cyn yr arolygiad. Wedi'i archwilio gan y tîm ystadau a chytunwyd ar ddrysau newydd. Yn aros i'r drysau gyrraedd a chael eu gosod. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo | Diwedd Awst 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid gosod clychau argyfwng ym mhob ystafell ymgynghori yn yr Uned Mân Anafiadau. | | Wedi'i asesu a'i adrodd i'r tîm ystadau gan arweinydd tîm yr Uned Mân Anafiadau. Yn aros iddynt gael eu gosod gan y tîm ystadau. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo | Diwedd Awst 2022 |
| Dylai’r rheolwyr adolygu'r trefniadau storio ar gyfer cadeiriau olwyn, i sicrhau eu bod yn briodol, a gwneud seddi plant yn hawdd eu cyrchu i gleifion. | | Nodi ardal o le storio o fewn yr uned ar gyfer cadeiriau olwyn a seddi plant. Archwilio opsiynau o symud cypyrddau i ardaloedd eraill o fewn yr ysbyty i ganiatáu ar gyfer storio o fewn yr uned. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau ac Eiddo | Diwedd Awst 2022 |
| Dylai’r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yr Uned Mân Anafiadau yn gallu cael mynediad at wasanaeth cyngor ac arweiniad meddygol penodedig a chyson. | | Ymgynghorydd mewn Adran Achosion Brys mewn ysbyty acíwt cyfagos bellach wedi'i nodi fel pwynt cyswllt i gynnig y gwasanaethau meddygol fel y'u derbyniwyd yn flaenorol. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Wedi’i gyflawni |
| Dylai staff sicrhau bod asesiadau pwysedd a niwed i feinwe'n cael eu cwblhau ar yr amser priodol a'u dogfennu yn nodiadau'r cleifion. | 2.2 Atal niwed pwyso a niwed i feinwe | Mae'r weithdrefn weithredu safonol ar gyfer asesu pwysedd a niwed i feinwe bellach wedi'i sefydlu gydag asesiadau ac archwiliadau yn eu lle. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Wedi’i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid adolygu a diweddaru'r polisi corfforaethol ar gyfer SARS COVID-19 o safbwynt atal a rheoli heintiau. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi | Mae angen adolygu'r polisi a'i ddiweddaru i adlewyrchu newid diweddar yn y canllawiau. | Uwch-nyrs Atal a Rheoli Heintiau | Diwedd Awst 2022 |
| Dylai'r Uned Mân Anafiadau arddangos cydymffurfedd â gofynion atal a rheoli heintiau yn ystafell aros y cleifion. | | Bydd yr uned yn sicrhau bod y bwrdd arddangos newydd yn adlewyrchu cydymffurfedd o ran atal a rheoli heintiau â hylendid dwylo a bod y rota lanhau, hyfforddiant ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn cael eu harddangos yn glir. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Diwedd Gorffennaf 2022 |
| Dylai rheolwyr adolygu'r cyfleusterau presennol sydd ar waith ar gyfer maeth a hydradiad cleifion a'u teuluoedd wrth iddynt fynychu'r Uned Mân Anafiadau a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth ac yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal. | 2.5 Maeth a hydradu | Bydd y tîm cyfleusterau yn adolygu ailsefydlu peiriant gwerthu bwyd a diod yn yr uned. Fel mesur dros dro, bydd staff yn gosod arwyddion clir i'r ffynnon ddŵr ac annog cleifion i ofyn a oes angen bwyd a diod.<br><br>Fel rhan o'r weithdrefn weithredu safonol ar gyfer y rhai sydd ag amseroedd aros hir, mae maeth a hydradiad wedi'u cynnwys fel asesiad. | Rheolwr Gwasanaethau Cymorth (De a Chanolbarth Powys) | Diwedd Awst 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai gwiriadau cyffuriau a reolir gael eu llofnodi'n amserol i gadarnhau eu bod wedi'u cwblhau. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae archwiliadau o gyffuriau a reolir bellach yn cael eu bwydo'n ôl i bob cyfarfod misol o arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau.<br><br>Mae proses o wirio cyffuriau a reolir adeg trosglwyddo wedi'i gweithredu er mwyn cynnal y drefn arferol a sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |
| Dylai’r rheolwyr ystyried y trefniadau presennol ar gyfer rhagnodi cyffuriau ac unrhyw anghenion hyfforddiant. | | Gosodwyd dwy nyrs ar hyfforddiant i ddod yn nyrsys sy'n rhagnodi ym mis Medi 2022. Unwaith y bydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau, bydd yn annog presenoldeb mwy o bobl i gael mwy o gyflenwad o ran nyrsys sy'n rhagnodi. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |
| Dylid adolygu a diweddaru gweithdrefn y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion. | | Mae angen adolygu a diweddaru gweithdrefn y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion i adlewyrchu'r angen a sicrhau ei bod yn gyfredol. | Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau / Fferyllfeydd y Gwasanaethau Cymunedol | Diwedd Hydref 2022 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai’r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion gymeradwyo’r defnydd o wrthfiotigau yn yr Uned Mân Anafiadau i sicrhau y darperir triniaeth effeithiol. | | Bydd rheolwyr meddyginiaethau yn cymeradwyo’r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer gwrthfiotigau ar gyfer cyflyrau cyffredin yn yr Uned Mân Anafiadau. Bydd tîm yr Uned Mân Anafiadau yn parhau i fynychu grŵp y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion i drafod a chyfiawnhau defnydd. | Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau / Fferyllfeydd y Gwasanaethau Cymunedol | Diwedd Medi 2022 |
| Dylid adolygu a diweddaru’r canllawiau clinigol. | | | | |
| Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth yn cael ei gwasanaethu'n ddi-oed yn unol â gweithdrefnau gweithredu sefydlog y bwrdd iechyd. | | Gwasanaethu'r oergell yn unol â'r gofynion. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |
| Dylai staff gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl | Mae staff bellach wedi cwblhau neu wedi cadw lle ar gyfer hyfforddiant diogelu gorfodol. Mae staff hefyd wedi mynychu sesiynau goruchwylio diogelu ar ddau achlysur ers yr adroddiad. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |
| Dylai’r rheolwyr adolygu a gwella'r broses bresennol o gael asesiadau iechyd meddwl ar | | Mae unedau mân anafiadau wedi derbyn hyfforddiant gan y tîm iechyd meddwl mewn asesu llwybrau o fewn y | Arweinydd Tîm Uned Mân | Wedi’i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gyfer cleifion sydd mewn perygl o hunan-niweidio. | | gwasanaeth iechyd meddwl ym Mhowys, cyfeirio cleifion atynt, a'r hyn sydd ar gael. Mae'r llwybrau a'r broses atgyfeirio bellach wedi'u mapio ac ar gael i dimau. Mae mwy o lenyddiaeth ar gael i gleifion sydd angen cymorth iechyd meddwl bellach ar gael yn yr uned hefyd. | Anafiadau Aberhonddu | |
| Dylid atgoffa'r holl staff i lofnodi rhestrau gwirio priodol i gadarnhau bod gwiriadau ar ddyfeisiau ac offer meddygol wedi'u cwblhau. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Mae archwiliadau o ddyfeisiau ac offer meddygol bellach yn cael eu bwydo'n ôl i bob cyfarfod misol o arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau.<br><br>Cynhelir archwiliadau yn electronig ar gyfer monitro. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |
| Dylid gwneud trefniadau i sicrhau bod cynnwys y blwch dadebru brys i blant yn cael ei wirio. | | Mae archwiliadau o focsys brys plant bellach yn cael eu bwydo'n ôl i bob cyfarfod misol o arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai staff gael gweithdrefnau gweithredu safonol dogfenedig ar gyfer trosglwyddo cleifion o'r Uned Mân Anafiadau trwy Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru neu weithdrefnau i reoli cludo cleifion i gyfeiriadau cartref. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Mae'r weithdrefn weithredu safonol ar gyfer cludo cleifion drwy Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bellach wedi'i chwblhau ac ar gael i bob tîm yn electronig ac ar bapur. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Wedi'i gyflawni |
| Dylai'r rheolwyr ymchwilio i'r digwyddiad yn ymwneud â nodiadau cleifion a ganfuwyd yn y toiledau merched yn yr Uned Mân Anafiadau a sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ac nad yw arferion gwael yn cael eu hailadrodd. | 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu | Cwblhawyd Datix gyda gwersi a ddysgwyd a chwblhawyd ymchwiliad. Dysgwyd gwersi clir ac mae addysg ynghylch rhannu a chludo nodiadau cleifion wedi'i rhoi i sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu. | Rheolwr Gwasanaeth Cymunedol De Powys | Wedi'i gyflawni |
| Dylai gwiriadau glanhau gael eu llofnodi i ddangos eu bod wedi'u cwblhau. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae archwiliadau o'r amserlen lanhau bellach yn cael eu bwydo'n ôl i bob cyfarfod misol o arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |
| Dylid adolygu'r gwaith o archwilio matresi a phelydrau-X gyda'r bwriad o ddarparu trywydd archwilio a chanlyniad llawn sydd wedi'u dogfennu. | | Mae archwiliadau wedi'u hadolygu ar gyfer cywirdeb a gwelliannau o ran cwblhau ac amlygrwydd. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | Mae archwiliadau o fatresi a phelydrau-X bellach yn cael eu bwydo'n ôl i bob cyfarfod misol o arweinwyr tîm yr Uned Mân Anafiadau. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai rheolwyr sicrhau bod adnoddau staff digonol ar gael ar shifftiau nos i ddiogelu parhad gwasanaeth. | 7.1 Y gweithlu | Cynnydd yn nifer yr ymarferwyr nyrsio brys yn y banc gydag un aelod o staff ar gontract cyfnod penodol. Mae hyn wedi caniatáu parhad gwasanaeth a chyflenwi'r uned 24 awr y dydd. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |
| Dylai rheolwyr wneud trefniadau i hysbysu llinell gymorth feddygol 111 y GIG ynghylch cau unedau. | | Mae'r broses bellach wedi'i sefydlu a'i rhannu'n ddigidol, yn ogystal â chopi papur, ar gyfer cau'r uned a hysbysu 111. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |
| Dylid ystyried annog a chefnogi staff i ennill cymhwyster Rhagnodi Anfeddygol neu Ragnodi gan Nyrsys Annibynnol. | | Disgwylir i ddau aelod o staff ddechrau hyfforddiant i fod yn nyrsys sy'n rhagnodi ym mis Medi. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd adolygiad am fwy o ymgeiswyr i ganiatáu ar gyfer cynaliadwyedd y gwasanaeth. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai rheolwyr sicrhau cydymffurfedd llawn â hyfforddiant gorfodol staff. | | Mae angen cydymffurfio'n llawn ar gyfer hyfforddiant gorfodol gyda phroses archwilio amlach yn cael ei gweithredu bob tri mis. Mae pob aelod o'r tîm wedi cadw lle ar gyfer neu wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |
| Dylai rheolwyr sicrhau bod dogfennau adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad yn cael eu cwblhau’n llawn yn unol â gofynion y bwrdd iechyd. | | Sicrheir cydymffurfedd llawn ag adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad o fewn yr uned bellach a cheir tystiolaeth ohono ar y system cofnodion staff electronig. | Arweinydd Tîm Uned Mân Anafiadau Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |
| Dylai rheolwyr sicrhau bod staff yn mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd, bod trafodaethau'n cael eu dogfennu, a bod y canlyniadau'n cael eu rhannu â'r staff hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. | | Mae cyfarfodydd arweinwyr tîm bellach yn cael eu cofnodi a chedwir cofnodion gan gynorthwyydd personol yr Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu. Mae cofnodion yn cael eu rhannu a’u storio mewn ffeil electronig ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu bod yn bresennol gyda phenderfyniadau'n cael eu cofnodi a'u hadlewyrchu trwy enwi'r rhai dan sylw. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu | Wedi’i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai rheolwyr sicrhau bod goruchwyliaeth staff yn cael ei dogfennu'n ffurfiol. | | Mae'r rheolwyr bellach wedi mynychu hyfforddiant ar sut i gofnodi goruchwyliaeth ar y cofnod staff electronig i'w chofnodi'n ffurfiol ac i adlewyrchu'r oruchwyliaeth barhaus a gwblhawyd o fewn yr uned.<br><br>Mae goruchwyliaeth yn cael ei lanlwytho fel y'i cwblhawyd a bydd yn broses barhaus. | Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu ac Arweinydd Tîm Uned Aberhonddu | Wedi’i gyflawni |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o’r gwasanaeth sydd â’r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Claudia O'Shea**

**Swydd: Uwch-reolwr Gofal heb ei Drefnu**

**Dyddiad: 28/6/2022**